OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 86 (Cy. 40) (C. 8)

# LLESIANT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2) 2016

*Gwnaed - - - - 27 Ionawr 2016*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 56(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2) 2016.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" *("the Act"*) yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Chwefror 2016**

**2.** 1 Chwefror 2016 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym—

Adran 18 (dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd);

Adran 19 (swyddogaethau'r Comisiynydd);

Adran 20 (adolygiadau gan y Comisiynydd);

Adran 21 (argymhellion gan y Comisiynydd);

Adran 22(1) (dyletswydd i ddilyn argymhellion);

Adran 22(4) (dyletswydd i ddilyn argymhellion: cyhoeddi'r ymateb);

Adran 23 (adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol);

Adran 24 (adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol: gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd);

Adran 25 (cydweithio).

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2016**

**3.** 1 Ebrill 2016 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym —

Adran 2 (datblygu cynaliadwy);

(**1**) 2015 dccc 2.

Adran 3 (dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus);

Adran 4 (y nodau llesiant);

Adran 5 (yr egwyddor datblygu cynaliadwy);

Adran 7 (datganiadau ynghylch amcanion llesiant);

Adran 8 (amcanion llesiant Gweinidogion Cymru);

Adran 9 (amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill);

Adran 11 (adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol);

Adran 12 (adroddiadau blynyddol gan Weinidogion Cymru);

Adran 13 (adroddiadau blynyddol gan gyrff cyhoeddus eraill);

Adran 15 (yr egwyddor datblygu cynaliadwy: ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol);

Adran 16 (hyrwyddo datblygu cynaliadwy);

Adran 29 (byrddau gwasanaethau cyhoeddus);

Adran 30 (gwahoddiadau i gyfranogi);

Adran 31 (gwahoddiadau i gyfranogi: dyroddi, ymateb a hyd y cyfranogiad);

Adran 32 (partneriaid eraill);

Adran 33 (newidiadau mewn cyfranogiad);

Adran 34 (cyfarfodydd a chylch gorchwyl);

Adran 35 (pwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod lleol);

Adran 36 (dyletswydd llesiant ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus);

Adran 37 (asesiadau llesiant lleol);

Adran 38 (paratoi asesiadau);

Adran 39 (cynlluniau llesiant lleol);

Adran 40(1) i (6) (cynlluniau llesiant lleol: rôl cynghorau cymuned);

Adran 41 (paratoi cynlluniau llesiant lleol: gwybodaeth am weithgarwch eraill);

Adran 42 (paratoi cynlluniau llesiant lleol: cyngor y Comisiynydd);

Adran 43 (paratoi cynlluniau llesiant lleol: ymgynghori pellach a chymeradwyaeth);

Adran 44 (adolygu cynlluniau llesiant lleol);

Adran 45 (adroddiadau cynnydd blynyddol);

Adran 46 (addasiadau i ddeddfiadau);

Adran 47 (uno byrddau gwasanaethau cyhoeddus);

Adran 48 (cydlafurio rhwng byrddau gwasanaethau cyhoeddus);

Adran 49 (cyfarwyddydau i uno neu i gydlafurio);

Adran 50 (dangosyddion perfformiad a safonau);

Atodlen 1 (adroddiadau blynyddol gan gyrff cyhoeddus eraill);

Atodlen 3 (byrddau gwasanaethau cyhoeddus: darpariaeth bellach);

Atodlen 4 (byrddau gwasanaethau cyhoeddus: diwygiadau canlyniadol a diddymu) ac eithrio paragraff 34 o'r Atodlen honno.

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016**

**4.** 6 Ebrill 2016 yw'r diwrnod penodedig i baragraff 34 (cynlluniau'n dilyn asesiadau o anghenion o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) o Atodlen 4 i'r Ddeddf ddod i rym.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

27 Ionawr 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wnaed o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn darparu mai 1 Chwefror 2016 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau'r Ddeddf a nodir yn yr erthygl honno ac y cyfeirir atynt isod:

Adran 18 (dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd);

Adran 19 (swyddogaethau'r Comisiynydd);

Adran 20 (adolygiadau gan y Comisiynydd);

Adran 21 (argymhellion gan y Comisiynydd);

Adran 22(1) (dyletswydd i ddilyn argymhellion);

Adran 22(4) (dyletswydd i ddilyn argymhellion: cyhoeddi'r ymateb);

Adran 23 (adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol);

Adran 24 (adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol: gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd);

Adran 25 (cydweithio).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn yn darparu mai 1 Ebrill 2016 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym yr holl ddarpariaethau sy'n weddill (ac eithrio'r rhai hynny a bennir yn erthygl 4 o'r Gorchymyn) o'r Ddeddf a nodir yn yr erthygl honno ac y cyfeirir atynt isod:

Adran 2 (datblygu cynaliadwy);

Adran 3 (dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus);

Adran 4 (y nodau llesiant);

Adran 5 (yr egwyddor datblygu cynaliadwy);

Adran 7 (datganiadau ynghylch amcanion llesiant);

Adran 8 (amcanion llesiant Gweinidogion Cymru);

Adran 9 (amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill);

Adran 11 (adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol);

Adran 12 (adroddiadau blynyddol gan Weinidogion Cymru);

Adran 13 (adroddiadau blynyddol gan gyrff cyhoeddus eraill);

Adran 15 (yr egwyddor datblygu cynaliadwy: ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol);

Adran 16 (hyrwyddo datblygu cynaliadwy);

Adran 29 (byrddau gwasanaethau cyhoeddus);

Adran 30 (gwahoddiadau i gyfranogi);

Adran 31 (gwahoddiadau i gyfranogi: dyroddi, ymateb a hyd y cyfranogiad);

Adran 32 (partneriaid eraill);

Adran 33 (newidiadau mewn cyfranogiad);

Adran 34 (cyfarfodydd a chylch gorchwyl);

Adran 35 (pwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod lleol);

Adran 36 (dyletswydd llesiant ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus);

Adran 37 (asesiadau llesiant lleol);

Adran 38 (paratoi asesiadau);

Adran 39 (cynlluniau llesiant lleol);

Adran 40(1) i (6) (cynlluniau llesiant lleol: rôl cynghorau cymuned)

Adran 41 (paratoi cynlluniau llesiant lleol: gwybodaeth am weithgarwch eraill);

Adran 42 (paratoi cynlluniau llesiant lleol: cyngor y Comisiynydd);

Adran 43 (paratoi cynlluniau llesiant lleol: ymgynghori pellach a chymeradwyaeth);

Adran 44 (adolygu cynlluniau llesiant lleol);

Adran 45 (adroddiadau cynnydd blynyddol);

Adran 46 (addasiadau i ddeddfiadau);

Adran 47 (uno byrddau gwasanaethau cyhoeddus);

Adran 48 (cydlafurio rhwng byrddau gwasanaethau cyhoeddus);

Adran 49 (cyfarwyddydau i uno neu i gydlafurio);

Adran 50 (dangosyddion perfformiad a safonau);

Atodlen 1 (adroddiadau blynyddol gan gyrff cyhoeddus eraill);

Atodlen 3 (byrddau gwasanaethau cyhoeddus: darpariaeth bellach);

Atodlen 4 (byrddau gwasanaethau cyhoeddus: diwygiadau canlyniadol a diddymu) ac eithrio paragraff 34 o'r Atodlen honno i'r Ddeddf.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn yn darparu mai 6 Ebrill 2016 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym paragraff 34 o Atodlen 4 i'r Ddeddf sy'n darparu ar gyfer diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn cysylltiad â chynlluniau'n dilyn asesiadau o anghenion o dan adran 14 o'r Ddeddf honno.

Daw'r Gorchymyn hwn â gweddill darpariaethau'r Ddeddf nad ydynt eisoes mewn grym i rym.